



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Cynllunio ar gyfer adferiad Economaidd a Chymdeithasol ar ôl y pandemig Coronafeirws

Atodiad 2: Grwpiau Agored i Niwed

Helen Tilley a Craig Johnson
Gorffennaf 2020

Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu i wella'r broses o lunio polisi a gwella gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfeirio gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus at dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio. Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi i gyfuno a chyflwyno'r dystiolaeth bresennol a chanfod unrhyw fylchau lle mae angen gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar lywodraeth ond yn cydweithio'n agos â llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd am sut i ateb heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau eraill sydd wedi eu datganoli. Mae'n:

- Cynorthwyo Gweinidogion Llywodraeth Cymru i adnabod, casglu a defnyddio tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol a all helpu i oleuo a gwella polisi;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i ganfod, cynhyrchu, gwerthuso a chymhwysu tystiolaeth am beth sy'n gweithio at heriau economaidd a chymdeithasol allweddol; a
- Defnyddio ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i wella dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth oleuo a gwella'r broses o lunio polisi a gwella gwasanaethau cyhoeddus, a chyfrannu at theorïau ar lunio a gweithredu polisi.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymhlith ymchwilwyr i gyfrannu at ymchwil polisi perthnasol sy'n cael effaith ar lawr gwlad.

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan yn <https://www.wcpp.org.uk/cy/>

Cyllidwyr Craidd



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae'r brifysgol yn un uchelgeisiol ac arloesol gyda'i golygon ar wneud cysylltiadau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.



Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o sefydliad Ymchwil ac Arloesi'r Deyrnas Unedig (UKRI), sefydliad newydd sy'n dod â'r saith cyngor ymchwil yn y DU, ynghyd ag Innovate UK a Research England, at ei gilydd i gynyddu cyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau fel bod ymchwil ac arloesi'n gallu ffynnu.



Llywodraeth Cymru yw'r llywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru ac mae'n gyfrifol am feysydd allweddol yn ymwneud â bywyd cyhoeddus gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

Cynnwys

Cyflwyniad

Error! Bookmark not defined.

Bord gron 1

4

Trosolwg

Error! Bookmark not defined.

Grwpiau agored i niwed

Error! Bookmark not defined.

Addysg bellach ac uwch

Error! Bookmark not defined.

Cymorth busnes

Error! Bookmark not defined.

Cyllid cyhoeddus

Error! Bookmark not defined.

Cyfranogwyr

Error! Bookmark not defined.

Bord gron 2

10

Trosolwg

Error! Bookmark not defined.

Grwpiau agored i niwed

Error! Bookmark not defined.

Addysg a hyfforddiant

Error! Bookmark not defined.

Ymyriadau polisi a chymorth busnes

Error! Bookmark not defined.

Cyfranogwyr

Error! Bookmark not defined.

Cyflwyniad

Yn yr atodiad hwn, cyflwynir casgliadau dau gyfarfod bord gron o arbenigwyr a alwyd ym Mai 2020 gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd i ystyried ffyrdd i liniaru effaith y pandemig Coronafeirws ar grwpiau agored i niwed.

Comisiynwyd yr atodiad a'r adroddiad cysylltiedig gan y Gweinidog i helpu i gyfrannu at y cynllunio gan Lywodraeth Cymru, ond rydym yn gobeithio y byddant yn ddefnyddiol hefyd i wasanaethau cyhoeddus ac i sefydliadau eraill sy'n datblygu eu syniadau eu hunain ar ailgychwyn ac adfer.

Bord gron 1

Y cais i arbenigwyr a gymerodd ran yn y cyfarfod bord gron cyntaf oedd cynnig cyngor am effaith wahaniaethol y pandemig Coronafeirws ar grwpiau agored i niwed neu grwpiau dan anfantais yng Nghymru a sut i liniaru'r effaith hon drwy ymyriadau economaidd, ymyriadau lles, a datblygu gwasanaethau cyhoeddus, o fewn y pwerau sydd gan Lywodraeth Cymru.

Trosolwg

Mae'r pandemig hwn wedi codi yng nghyd-destun ansicrwydd a grëwyd gan Brexit, ac ar ôl cyfnod o gyni a chwtogi yng nghyllid gwasanaethau cyhoeddus ledled y DU yn dilyn yr argyfwng ariannol yn 2008. Felly, mae pobl sydd eisoes mewn sefyllfaoedd bregus yn fwyfwy agored i effaith y ffactorau hyn ac mae gallu'r wladwriaeth i'w cefnogi'n effeithiol wedi'i leihau gan fesurau cyni. Mae rôl y wladwriaeth fel rhwyd ddiogelwch yn hanfodol, i unigolion sy'n wynebu'r risg o dlodi a hefyd er mwyn cadw busnesau, a hynny am gyfnod hirach nag a ragwelwyd yn wreiddiol o bosibl.

Mae'r diffyg sicrwydd ac eglurder yn her fawr. Nid yw'r ffordd allan o gyfnod y cyfyngiadau symud yn glir ar hyn o bryd, ac mae goblygiadau yn hynny i'r ffordd y caiff yr economi ei hadfer a math yr effaith ar grwpiau agored i niwed. Disgwylir y bydd y cyfnod adfer yn hir ac y bydd yr economi gryn dipyn yn llai yn y tymor canolig. Fodd bynnag, ni ddylid cymryd bod hyn yn anorfod gan fod posibilrwydd o adferiad cyflymach mewn rhai ardaloedd a chyfleoedd y gellir eu dilyn. Hyd yn hyn, mae'r drafodaeth am y pandemig wedi canolbwyntio gan mwyaf ar y camau cyffredinol allan o'r argyfwng ond mae dirfawr angen sicrhau bod yr ymateb yn cael ei addasu i anghenion gwahanol rannau o'r economi a chymdeithas.

Bydd yr argyfwng yn effeithio ar Gymru mewn ffyrdd sy'n wahanol i weddill y DU oherwydd ei nodweddion penodol. I ryw raddau, mae Cymru wedi'i diogelu oherwydd ei chyfran fwy o

weithwyr allweddol, y gyfran fwy o weithwyr sydd wedi'u cyflogi yn y sector cyhoeddus, a'r gyfran fwy o'i gweithwyr sy'n cael y cyflog byw cenedlaethol. Er hynny, mae cyfran fwy o'i gweithwyr ar gyflogau isel a chyfran fwy nad ydynt yn gallu gweithio gartref. Mae effaith neilltuol hefyd ar rai sectorau sy'n allweddol i economi Cymru. Nid yw'r effaith ar y farchnad lafur yn gyfartal a bydd y gwahanol effeithiau ar bobl yn arwain at wahanol brofiadau.

Mae'r argyfwng wedi newid y cydbwysedd rhwng hawliau, cyfrifoldebau a risg mewn cymdeithas, a hynny'n awgrymu bod angen ailddiffinio'r contract cymdeithasol. Gellid defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sail i naratif clir ac i ddiffinio'r weledigaeth ar gyfer economi Cymru yn y dyfodol. Mae cyfle i gydweithio â llywodraethau eraill sy'n rhoi pwys ar lesiant. Rhoddwyd sylw ers cryn amser yng Nghymru i'r agenda ar waith teg, yn enwedig felly mewn sectorau sy'n cael eu hystyried yn allweddol ac yn sylfaenol. Mae'r argyfwng yn cynnig cyfle i weithredu ar hyn.

Tynnwyd sylw yn y cyfarfod bord gron at rai o'r heriau mawr a fydd yn parhau i godi o'r pandemig hwn a'r ymateb iechyd cyhoeddus. Mae rhai o'r ymyriadau pwysicaf – drwy'r system trethi a lles – yn parhau'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU. Mae goblygiadau'r pandemig o ran tlodi a thlodi plant yn sylweddol ac nid yw'r setliadau presennol yn ddigonol i ddelio â'r heriau hyn. Bydd y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn creu goblygiadau o ran yr hyn y gellir ei gyflawni yng Nghymru ac mae angen ffurfio partneriaeth newydd, drwy ymgychu gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfle hefyd i Lywodraeth Cymru ddilyn ei hamcanion ei hun a chreu newid o fewn y setliad datganoli presennol; rhai dulliau cydweithredol posibl yw cynulliadau dinasyddion a chyfarfodydd bord gron.

Grwpiau agored i niwed

Bydd grwpiau sydd eisoes mewn sefyllfa wan o ganlyniad i anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd yn profi effaith fawr ac yn wynebu risg o dlodi mwy byth. Er bod mesurau cymorth tymor byr Llywodraeth y DU wedi diogelu incwm nifer mawr o bobl yn rhannol, nid ydynt wedi darparu help sylweddol i'r rheini sydd mewn tlodi. Mae unigolion a chymunedau'n wynebu risg sylweddol o greithio o ganlyniad i ddiweithdra a thlodi tymor hir. Nodwyd bod y pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar y rheini o gefndiroedd BAME.

Bydd diweithdra, tangyflogaeth a diffyg cymorth gan y wladwriaeth yn creu goblygiadau mawr o ran tlodi plant. Byddai effeithiau hirdymor yr argyfwng hwn ar blant a phobl ifanc yn gallu dad-wneud y cynnydd a gafwyd dros ddau ddegawd ar gyrhaeddiad addysgol a rhagolygon economaidd. Mae gwahaniaethau sylweddol yn y graddau y bydd y cyfyngiadau symud yn effeithio ar gyrhaeddiad addysgol plant, er enghraifft, ar sail y gwahanol raddau o fynediad at fand eang – bydd yn hollbwysig sicrhau na fydd hyn yn ehangu'r bwloch addysgol yn fwy.

Roedd cytundeb cyffredinol y byddai'r cymorth a ddarparwyd gyntaf gan Lywodraeth y DU yn para dros gyfnod gweddol fyr ac na ellid parhau i'w gynnal ar y raddfa honno. Mae credyd cynhwysol yn bwysig, yn enwedig i deuluoedd un rhiant. Roedd consensws eang y dylai Llywodraeth Cymru ddadlau o blaid buddsoddi sylweddol mewn cymorth cyflogaeth, a cheisio sicrhau polisïau gweithredol ar y farchnad lafur ar gyfer pobl ddi-waith. Gallai hyn fod ar ffurf gwarantau swydd neu hyfforddiant i'r rhai sy'n ddi-waith dros y tymor hir.

Cafwyd trafodaeth am yr angen i gael gwell dealltwriaeth o effeithiau'r argyfwng hwn ar y grŵp mawr sydd ar ganol y dosbarthiad incwm. Y grŵp hwn sydd â'r lefel uchaf o ddyled ansicredig, a bydd rhai ohonynt mewn sefyllfa ariannol sy'n anghynaliadwy o ganlyniad i'r argyfwng hwn.

Addysg bellach ac uwch

Gallai'r system addysg gyflawni rôl strategol drwy rag-weld newidiadau yn yr economi a datblygu cyfleoedd hyfforddi a chymhellion mewn ymateb i hyn. Roedd cydnabyddiaeth y gall prentisiaethau fod yn fecanwaith pwysig i helpu i ddatblygu sgiliau ac adfer y farchnad lafur. Gallant helpu gweithwyr i symud yn y tymor byr o sectorau a effeithiwyd i swyddi gwahanol, fel rhai yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol neu'r sector band eang a thechnoleg.

Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod prentisiaethau'n cynnig rhaglenni hyfforddi o ansawdd da sy'n seiliedig ar sgiliau, yn hytrach na bod yn ffordd i gael llafur rhad. Enghraifft o hyn yw un o brosiectau'r IPPR yn Llundain sy'n hwyluso rhaglenni prentisiaeth effeithiol gyda chyflogwyr bach a mawr. Er mwyn sefydlu cynllun o'r fath, dadleuwyd y byddai angen pennu darparwyr ac edrych ar amodau, ac y bydd cymorth gan lywodraeth yn allweddol i hyn. Rhai awgrymiadau a gafwyd oedd hybu cydweithio ymysg darparwyr a chwmnïau a chryfhau rôl yr undebau llafur er mwyn canfod bylchau sgiliau a chynnig ffyrdd i'w llenwi. Mae'n bosibl na fydd angen rhaglenni newydd ym mhob man, ond y gellid ehangu ac addasu rhaglenni presennol. Mae 30 o gynlluniau sgiliau a phrentisiaeth gan Busnes Cymru, felly mae cyfle i'w gwneud yn fwy hygyrch drwy symleiddio'r strwythur, y gofynion derbyn a'r broses ymgeisio. Byddai Llywodraeth Cymru yn gallu cyfeirio ymgeiswyr posibl drwy broses symlach.

Ystyriwyd y risgiau a'r cyfleoedd i brifysgolion. Disgwylir y bydd incwm sylweddol yn cael ei gollu yn y tymor byr o ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr o wledydd tramor. Gan ei bod yn debygol y bydd mwy o leoedd gwag mewn prifysgolion yn hydref 2020 yn sgil y gostyngiad yn nifer y myfyrwyr, gellid annog prifysgolion Cymru i ddarparu addysg bellach. Yn ogystal â hybu sgiliau, hyfforddiant a sefyllfa ariannol prifysgolion, gallai hyn leddfu pwysau ar y farchnad lafur ar y pryd a lleihau diweithdra ymysg pobl ifanc. Trafodwyd cymhellion fel lleihau'r dreth gyngor i'w thalu gan raddedigion er mwyn eu cadw yn yr ardal ac annog graddedigion o Gymru i ddychwelyd ar ôl datblygu rhwydweithiau a sgiliau y tu allan i Gymru.

Gallai prifysgolion ddod yn gatalyddion ar gyfer datblygu rhanbarthol¹. Er na fyddai hyn yn addas ym mhob rhan o Gymru oherwydd lleoliad daearyddol y prifysgolion, gellid gwneud rhagor i helpu prifysgolion, awdurdodau lleol a busnesau i weithio mewn partneriaethau rhanbarthol er mwyn hyrwyddo rhaglenni sy'n canolbwyntio ar sgiliau. Gallai CCAUC chwarae rhan wrth hwyluso hyn.

Nodwyd hefyd fod prifysgolion y DU wedi syrthio ar ôl prifysgolion Americanaidd, yn cynnwys Prifysgol Harvard, sydd wedi datblygu cyrsiau ar-lein. Mae cyfle i brifysgolion gydweithio a chyfrannu at gynnig graddau cyfun².

Cymorth busnes

Drwy ddeall yr effaith ar wahanol sectorau, gellir llunio strategaeth gymorth deilwredig. Roedd cydnabyddiaeth bod rhai sectorau, yn cynnwys y sectorau dur, awyrafod, modur, lletygarwch a thwristiaeth, wedi profi effaith neilltuol, tra bydd angen ehangu sectorau eraill, yn cynnwys gofal cymdeithasol, a bydd yn bwysig gwerthuso'r swyddi, cydnabyddiaeth ariannol, sgiliau a hyfforddiant mewn sectorau o'r fath. Mae hefyd yn debygol y bydd anghydraddoldebau rhanbarthol yn dwysáu oherwydd yr effeithiau sectoraidd hyn, fel y bydd llai o allu i ymadfer mewn rhai rhannau o Gymru nag mewn eraill, gan ychwanegu at effeithiau ergydion economaidd blaenorol.

Mae tri chategori cyffredinol, a phob un yn galw am wahanol ymyriadau:

1. Bydd rhai busnesau ag angen cymorth wrth ddychwelyd yn raddol at lefel o weithgarwch sy'n weddol debyg i'r arfer.
2. Bydd eraill, yn cynnwys rhai yn y sector lletygarwch, na fyddant yn gallu aildechrau am gryn amser ac felly dylid cynorthwyo cyflogaion i ailhyfforddi.
3. Mae'r busnesau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd twristaidd diarffordd yn wynebu anawsterau neilltuol gan nad oes cyfleoedd amlwg eraill am gyflogaeth tra bydd cyfyngiadau ar deithio'n parhau ac maent yn debygol o wynebu cyfnod hir o golli incwm. Bydd angen math gwahanol o gymorth yn yr ardaloedd hyn, fel cynllun gwarantu swyddi.

Mae'n oblygedig yn y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth y DU ei bod yn cadw busnesau i fynd nes byddant yn hyfyw. Er hynny, cafwyd anogaeth i weld gwir natur y sefyllfa a

¹ Gweler adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru am genhadaeth ddinesig prifysgolion
<https://www.wcppp.org.uk/publication/maximising-universities-civic-contribution/>

² Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi mesurau ar waith gyda'r Brifysgol Agored a darparwyr eraill i ddarparu llwyfan e-ddysgu di-dâl ar gyfer sgiliau a hyfforddiant. Mae'n bosibl y bydd galw mawr am y ddarpariaeth hon yn y misoedd nesaf ac y bydd angen darparu cymorth ychwanegol.

chydnabod na fydd rhai busnesau'n gallu dod yn hyfyw eto a'i bod yn bosibl y bydd angen gadael i'r busnesau hyn fethu. Mewn amgylchiadau o'r fath, gellid cynnig grantiau ailhyfforddi i helpu i adleoli llafur. Gellid gwneud hyn yr un pryd ag annog cyflogeion sydd ar ffyrlo i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi ar-lein.

Mae dirfawr angen meddwl am ffyrdd hyblyg i ymadael â'r cynllun cadw swyddi er mwyn pontio i'r cyfnod adfer, er enghraifft, drwy fabwysiadu polisi gweithredol ar y farchnad lafur sy'n cynnwys cynllun cymorthdaliadau cyflog ac ailhyfforddi. Byddai hyn yn galw am ailfeddwl am gydbwysedd y cyfrifoldebau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a gallai elwa o'r hyblygrwydd sydd gan Gymru i ddefnyddio gwahanol opsiynau fel benthyciadau i fusnesau bach a chanolig eu maint a chytundebau cyfnewid ecwiti am ddyled.

Mae rhai ymyriadau pwysig y gall Llywodraeth Cymru eu cyflawni, yn amodol ar derfynau benthycia. Roedd consensws ei bod yn bwysig buddsoddi mewn cyfleusterau band eang. Mae mynediad at fand eang yn bwysicach byth bellach ar gyfer cynhwysiant economaidd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae'n fwy cyfyngedig. Bydd yn hanfodol buddsoddi mewn band eang cyflym iawn ac awgrymwyd cyflwyno cynllun tebyg o ran fformat i'r cynllun beicio i'r gwaith i hybu cynhwysiant digidol. Os bydd mwy o alw am dai mewn ardaloedd gwledig o ganlyniad i'r argyfwng hwn, byddai angen buddsoddi mwy mewn band eang.

Rhai awgrymiadau eraill oedd: addasu Banc Datblygu Cymru i fod yn asiantaeth datblygu economaidd ac ymestyn ei rôl fel ei fod yn fwy na sefydliad ariannu yn unig; mwy o fuddsoddi mewn arolygon busnes (fel y rhai a gynhelir gan y Federal Reserve yn yr Unol Daleithiau) i ddeall yn fwy manwl ble mae cryfderau a chyfleoedd, lle mae gwendidau, a hefyd lle mae tagfeydd a heriau i'w hwynebu; a defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu amodau ar ddarparu cymorth busnes, er enghraifft, nid yw Denmarc yn cynorthwyo cwmnïau sy'n defnyddio hafanau treth.

Bydd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cael eu lobio'n aml gan wahanol sectorau a busnesau. Roedd cytundeb y bydd yn bwysig bod yn gadarn a thryloyw ynghylch sut bydd ac na fydd cymorth yn cael ei ddarparu.

Cyllid cyhoeddus

Bydd goblygiadau i gyllid cyhoeddus yn y ffordd a gymerir i ymadfer, ac roedd cydnabyddiaeth bod ansicrwydd am y dyfodol yn her. Cytunai'r rhan fwyaf fod dadansoddiad a rhagolygon yr OBR yn rhai optimistaidd a'i bod yn debygol y bydd y cyfnod adfer yn hirach ac y bydd yr economi gryn dipyn yn llai yn y tymor canolig. Yng nghyd-destun y diffyg cyllidol mawr a dyled gynyddol, mae dewisiadau i'w gwneud o ran sut i ariannu'r ddyled, yn enwedig yng nghyswllt pwysau dyled byd-eang. Rhai o'r cwestiynau yw pa mor gyflym y dylid dychwelyd at gyllideb gyfredol gytbwys a sut a pha bryd y dylid cynyddu trethi. Roedd cytundeb y bydd angen codi refeniw drwy gynyddu trethi gan nad yw mesurau cyni yn

ddewis hyfyw. Mae'n debygol y bydd incwm o drethi'n lleihau ac y ceir llai o refeniw o ardrethi busnes a'r dreth stamp y flwyddyn hon, a'r flwyddyn nesaf o bosibl. Nodwyd pa mor bwysig oedd amseru'r cynnydd mewn trethi i gyd-fynd ag amcanion gwleidyddol ac economaidd.

Bydd y sefyllfa o ran cyllid cyhoeddus yn dylanwadu ar y penderfyniad ar ba bryd y bydd y cynllun cadw swyddi yn cael ei ddirwyn i ben. Bydd y cyllid ar gyfer hyn ynghyd â chymorth lles arall, yn cynnwys credyd cynhwysol, yn dibynnu ar negodiadau â Llywodraeth y DU.

Cyfranogwyr

Cadeirydd: Jeremy Miles

Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru
(yn gyfrifol am waith adfer at y dyfodol)

Yr arbenigwyr a gymerodd ran:

Gordon Brown

Cennad Arbennig y Cenhedloedd Unedig dros Addysg Fyd-eang a chyn Brif Weinidog y DU

Jonathan Portes

Athro Economeg a Pholisi Cyhoeddus, King's College London

Torsten Bell

Prif Weithredwr y Resolution Foundation

Paul Johnson

Cyfarwyddwr y Sefydliad Astudiaethau Cyllid; Athro Gwadd yn yr Adran Economeg yn University College London

Carys Roberts

Cyfarwyddwr Gweithredol IPPR

Elke Heins

Uwch Ddarlithydd Polisi Cyhoeddus ym Mhrifysgol Caeredin

Steffan Ball

Cadeirydd y Cyngor Cynghorwyr Economaidd yn Nhrysorlys EM

Gareth Jones

Prif Weithredwr Town Square Spaces

Meena Upadhyaya

Athro Nodedig Anrhydeddus ym Mhrifysgol Caerdydd

Llywodraeth Cymru: Lauren Stamp, Jonathan Price, Ian Butler, Liz Lalley, Charlie McCurdy

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Craig Johnson, Helen Tilley

Bord gron 2

Y cais i arbenigwyr a gymerodd ran yn yr ail gyfarfod bord gron oedd cynnig cyngor ar y ffordd orau i gynorthwyo'r grwpiau hynny a effeithiwyd fwyaf gan y cyfyngiadau symud ac ar yr ymyriadau polisi y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt i helpu busnesau i siapio economi'r dyfodol yng Nghymru.

Trosolwg

Gellir gweld yr ymateb i'r pandemig Coronafeirws fel ymateb i'r argyfwng economaidd yn 2020 a hefyd fel cyfle i fabwysiadu model amgen drwy fuddsoddi mewn systemau a sefydliadau a fydd yn gosod sylfeini ar gyfer dyfodol mwy cadarn a chynaliadwy. Rôl Llywodraeth Cymru yw darparu cymorth ar y pryd gan gymryd camau hefyd i hwyluso'r broses o ddatblygu mecanweithiau newydd a ffyrdd o weithio ar gyfer y dyfodol. Bydd yn bwysig sicrhau bod cymorth tymor byr yn hwyluso camau i fabwysiadu nodau tymor hwy a'i fod wedi'i seilio ar nodweddion penodol yr economi a chymdeithas yng Nghymru. Er enghraifft, mae'n cynnig cyfle i feddwl am ddyfodol gwaith ac i sefydlu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Drwy fanteisio ar y cyfle hwn i ddatblygu economi gydnerth sy'n ymateb i natur benodol cymdeithas a demograffeg Cymru gan weithredu'n unol â gwerthoedd Cymreig, bydd Cymru mewn sefyllfa gryf os bydd y pandemig yn dychwelyd.

Mae'r argyfwng wedi amlygu anghydraddoldebau presennol mewn cymdeithas ac wedi dangos nad yw'r economi'n gweithio i rai grwpiau o bobl. Mae anghydraddoldebau presennol wedi'u gwaethygu o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws, ac er bod y cymorth a ddarparwyd gyntaf o reidrwydd yn gymorth cyffredinol a chynhwysfawr, bydd rhai sectorau a grwpiau'n parhau i fod ag angen mwy o gymorth na'i gilydd. Drwy ystyried sut mae polisiâu'n effeithio'n wahanol ar grwpiau penodol, gellir gweld yn gliriach y canlyniadau anghyfartal sy'n debygol o ddilyn. Drwy addasu polisiâu mewn ymateb i'r argyfwng, ceir cyfle i addasu'r gwerth a briodolir i wahanol fathau o waith. Mae'n bwysig sicrhau bod y sectorau allweddol yn y Cynllun Gweithredu Economaidd yn rhai priodol a'u bod yn helpu i wireddu'r weledigaeth ar gyfer economi Cymru yn y dyfodol, yn ogystal ag amlinellu camau pendant i'w cymryd gan fusnesau, er enghraifft, mewn perthynas â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Grwpiau agored i niwed

Mynegwyd pryder ynghylch pobl ifanc, yn enwedig y rheini sydd o dan 25 oed sy'n cael eu taro waethaf fel arfer mewn dirwasgiad. Bydd oedolion ifanc ag adnoddau a thalentau yn gadael y coleg neu'r brifysgol ac yn wynebu cyfyngiadau mawr: ni fydd modd iddynt deithio, byddant yn ei chael yn anodd dod o hyd i waith a gallent fod yn byw gyda'u rhieni. Mae

perygl y bydd eu sgiliau a'u galluoedd yn cael eu gwastraffu, a bydd yn bwysig datblygu strategaeth i atal hynny.

Byddai gweithio o bell yn gallu arwain at fwy o gyfranogi yn y farchnad lafur gan weithwyr anabl a'r rheini â chyfrifoldebau gofalu (menywod yn bennaf). Er hynny, ni fydd stereoteipiau sefydliadol yn newid ohonynt eu hunain o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud, ac mae goblygiadau negyddol yn hynny i gydraddoldeb. Yn ogystal â hyn, mae perygl y bydd gweithio o bell yn cryfhau patrymau anghydraddoldeb sy'n bod eisoes gan ei bod yn debygol nad yw'r gallu i weithio gartref wedi'i rannu'n gyfartal. Mae angen sicrhau cydraddoldeb rhwng gweithio o bell a gweithio hyblyg fel na fydd y rhan fwyaf o bobl sy'n gofyn amdanynt yn rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu neu'n rhai sy'n ei chael yn anodd teithio i weithle; ac mae'r angen am sicrhau cydraddoldeb mewn contractau yn parhau. Disgwylir y bydd y bwloch cyflog rhwng y rhywiau yn gwaethygu am fod mwy o fenywod ar gyfartaledd yn gweithio mewn diwydiannau isel eu tâl a diwydiannau sydd ar ffyrlo.

Roedd cydnabyddiaeth i'r rôl hanfodol sydd gan elusennau a'r trydydd sector. Dywedodd un o'r cyfranogwyr fod ei sefydliad wedi cael nifer cynyddol o geisiadau am gymorth gan elusennau, yn cynnwys sefydliadau digartrefedd a banciau bwyd, gan fod gwendidau a oedd eisoes yn bod wedi dwysáu a ffrydiau cyllido wedi'u colli. Er bod rhai cysylltiadau wedi'u creu ag awdurdodau lleol a grwpiau fel y WCVA, teimlwyd y dylai Llywodraeth Cymru roi sylw parhaus i elusennau gan eu bod yn cyflawni rôl bwysig wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae ymarfer corff a thrafnidiaeth wedi newid mewn ymateb i'r pandemig Coronafeirws, ond bydd gan rai grwpiau lai o allu i ymateb nag eraill. Nodwyd bod pobl ag anableddau a mamau â phlant yn grwpiau nad oeddent yn cael cymorth drwy'r seilwaith presennol, er enghraifft, i fynd â phlant i'r ysgol, neu i ofalwyr deithio i'r gwaith.

Addysg a hyfforddiant

Mae cyfle drwy addysg a hyfforddiant i wneud addasiadau a fydd yn symud yr economi oddi wrth y patrymau anghydraddoldeb sy'n gyffredin. Mae rhan i'w chwarae gan addysg a hyfforddiant ffurfiol, ond mae hefyd yn bwysig ysgogi pobl, yn enwedig y rheini mewn grwpiau neu gymunedau difreintiedig, i weld dyfodol gwahanol iddyn nhw eu hunain a fyddai'n caniatáu iddynt wneud cyfraniad mwy i'r economi a chymdeithas. Mae hyn yn gymwys hefyd i anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Awgrymwyd bod modd lleihau patrymau cyflogaeth seiliedig ar rywedd a'r bwloch cyflog rhwng y rhywiau drwy gymell myfyrwyr benywaidd i fynd i sectorau penodol. Byddai hyn yn creu goblygiadau tymor hwy wrth gael mwy o dystiolaeth gan fenywod, wrth glywed eu tystiolaeth, ac wrth iddynt gymryd rhan mewn penderfyniadau allweddol.

O ran datblygu sgiliau i ddiwallu anghenion yr economi yn y dyfodol, mae her yn codi ynglŷn â chadw hyblygrwydd i ymateb i anghenion newydd a sicrhau bod y ddarpariaeth o addysg a hyfforddiant yn gallu gwireddu'r weledigaeth ar gyfer yr economi yn y dyfodol. Dywedodd un arbenigwr fod angen i Lywodraeth Cymru ymateb yn hyblyg i alwadau cyflogwyr a myfyrwyr a gallu addasu symiau o gyllid i addysg bellach mewn ymateb i hyn; gan nodi nad yw'r symiau o gyllid a roddwyd y flwyddyn ddiwethaf yn briodol bellach.

Mae prifysgolion Cymru yn wynebu gostyngiad sylweddol yn eu hincwm ac mae pryderon ynghylch eu gallu i oroesi. Mae'r argyfwng wedi amlygu heriau a oedd yn bod eisoes, er enghraifft, bod dibynnu ar nifer mawr o fyfyrwyr o wledydd tramor yn arwain at ôl troed carbon mawr. Mae'r sector addysg uwch yn profi gwrthdymnu rhwng cyllid o'r DU, cyllid o wledydd tramor, a'r angen i hyfforddi penaethiaid ysgol yng Nghymru i baratoi disgyblion er mwyn sicrhau ymgeiswyr o Gymru. Byddai camau i addasu cydbwysedd y cyllid i brifysgolion yn gallu helpu i addasu cydbwysedd yr economi. Un cynnig a gafwyd oedd y dylai prifysgolion ddarparu prentisiaethau er mwyn llenwi'r lleoedd gwag sydd ganddynt a denu cyllid. Her benodol a wynebwr gan academwyr yw'r anhawster wrth geisio cyhoeddi ymchwil am Gymru mewn cyfnodolion blaenllaw, a bod hyn yn creu goblygiadau negyddol o ran gyrfaoedd a chyllid ar gyfer ymchwil ddilynol.

Gyda golwg ar y rheini sydd yn yr ysgol, trafodwyd diffyg cydraddoldeb mewn perthynas ag addasiadau i ddulliau dysgu ac arholiadau. Er bod addasiadau wedi'u gwneud i'r prosesau arholi TGAU a Safon Uwch, nid yw'r system addysg alwedigaethol wedi datblygu addasiadau eto oherwydd, gan amlaf, mae angen asesu a hyfforddiant wyneb yn wyneb. Mae hyn yn fater sy'n ymwneud â llesiant a lles economaidd y rhai sy'n gysylltiedig.

Ymyriadau polisi a chymorth busnes

Trafodwyd cyfleoedd a allai godi yn sgil y pandemig a'r argyfwng economaidd sy'n dod yn ei sgil. Dylai polisiâu gefnogi'r mathau o ganol trefi y mae pobl am eu gweld a meysydd gwaith sy'n hybu iechyd a llesiant, gan roi mwy o sylw i bwysigrwydd busnesau bach. Byddai cynnydd yng nghyfraddau trethi cwmnïau mawr sydd y tu allan i'r trefi a dinasoedd a chynnydd yn y cymorth i'r economi sylfaenol a busnesau bach yn gallu helpu cwmnïau llai i ymadfer.

Roedd rhai o'r arbenigwyr yn credu nad oedd y potensial i drawsnewid economi Cymru ers datganoli wedi cael ei wireddu gan fod y prif systemau trethi a lles yn aros yn nwylo Llywodraeth y DU, ac felly bod yr ysgogiadau o ran trethu yn aros yn gymharol fach yn yr un modd â thaliadau lles. Gan gydnabod bod yr ysgogiadau polisi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn gyfyngedig gan fod y systemau trethi, budd-daliadau a chyllid yn faterion a gedwir yn ôl, mae rhai cyfleoedd cyfyngedig i gyflawni amcanion polisi Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar frys am fwy o bwerau benthyca i weithredu ar

faterion datganoledig mewn argyfwng. Roedd rhai arbenigwyr yn dadlau y dylid defnyddio pwerau trethu yn fwy egnïol yn y dyfodol.

Awgrymwyd y dylid cymryd mwy o'r camau sydd yn yr adroddiad gan yr Athro Phil Brown ar yr Adolygiad o Arloesi Digidol. Rhai o argymhellion yr adroddiad oedd creu clystyrau arloesi ledled Cymru, athrofa Deallusrwydd Artiffisial, fframwaith sgiliau newydd, a darparu cyllid mwy o lawer i helpu rhannau o'r economi sylfaenol i wella eu seilwaith a sgiliau digidol. Mae ymchwil gan Brifysgol Caerdydd yn awgrymu nad mynediad at fand eang yw'r brif broblem i fusnesau, ond gallu a galluogrwydd digidol.

Mae sicrhau pellter rhwng cyflogeion yn debygol o fod yn fwy o her i rai busnesau gweithgynhyrchu na'i gilydd. Mae rhai busnesau lle nad yw cyflogeion yn gallu gweithio ar bellter oddi wrth ei gilydd, a lle na ellir darparu manau wedi'u hawyru'n dda, a chyfeiriwyd at risgiau a heriau yn nhermau cau busnesau, colli swyddi ac awtomeiddio. Felly, byddai camau i awtomeiddio heb golli nifer sylweddol o swyddi yn gallu galw am roi cymorth penodol i rai sefydliadau.

Mae'n bwysig deall y cyd-destun economaidd i lwyddiant busnesau. Yr unig ffordd i fusnesau oroesi yw drwy gynhyrchu, ar sail gystadleuol, nwyddau a gwasanaethau y mae pobl am eu prynu, a rôl Llywodraeth Cymru yw darparu seilwaith sy'n cefnogi busnesau. Gellir cyflawni hyn drwy gymorth ar gyfer cysylltedd digidol a thrafnidiaeth, a chymhellion i annog busnesau gweithgynhyrchu i fabwysiadu gweledigaeth ar gyfer economi werdd.

Roedd cydnabyddiaeth bod strwythur y cymorth ariannol i fusnesau yn cael effaith ar alluedd cwmnïau. Pe byddai Llywodraeth Cymru yn darparu ecwiti yn hytrach na grantiau, byddai hyn yn gallu hwyluso newid lle byddai busnesau'n hyrwyddo'r agenda yn bennaf yn hytrach na derbyn cyllid. Gofynnwyd hefyd a oedd modd trefnu i gyfalaf fod ar gael i gwmnïau i'w gwerthu ymlaen fel busnesau cydweithredol. Yn gysylltiedig â hyn, awgrymwyd y byddai datblygu partneriaethau rhwng busnes, llywodraeth a chymdeithas sifil yn ffordd i wneud gwell defnydd o dalentau mewn gwahanol sectorau yn yr economi.

Nodwyd yr her y mae'r sector twristiaeth yn ei hwynebu mewn gwahanol rannau o Gymru: mae'n bosibl y bydd y sector yn ailgodi y flwyddyn nesaf, ond gallai gymryd mwy o amser. Mae cyfleoedd tymor hir amlwg oherwydd byddai rhannau gwledig o Gymru yn gallu cynnig gwyliau mwy diogel na rhai mewn gwledydd tramor neu rannau mwy poblog o'r DU, ond wynebir her wrth geisio cyflawni hyn wedi i'r diwydiant brofi effaith mor fawr.

Cyfranogwyr

Cadeirydd: Jeremy Miles

Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru
(yn gyfrifol am waith adfer at y dyfodol)

Yr arbenigwyr a gymerodd ran:

Pippa Britton
Chwaraeon Cymru

Cerys Furlong
Chwarae Teg

Yr Athro Calvin Jones
Prifysgol Caerdydd

Yr Athro Dylan Jones-Evans
Prifysgol De Cymru

Michael Plaut OBE
Cyn-gadeirydd CBI Cymru

Tegid Roberts
Cadam Research

Y Barnwr Ray Singh
Race Council Cymru

Heather Stevens
Waterloo Foundation

Yana Williams
Coleg Cambria

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru: Craig Johnson, Helen Tilley

Manylion yr Awduron

Mae **Helen Tilley** yn Uwch Gymrawd Ymchwil yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Mae **Craig Johnson** yn Ymchwilydd Cyswllt yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.
Mae'n gweithio ar nifer o brosiectau i Weinidogion Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Helen Tilley

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored